| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **29 Medi 2014** |
| **TEITL :** | **Cais am oddefeb gan y Cynghorydd Mike Stevens** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu ar y cais** |

**Cefndir**

1. Mae'r Cynghorydd Mike Stevens, Cyngor Tref Tywyn, wedi cyflwyno cais am oddefeb. Atodir copi o e-bost a dderbyniwyd oddi wrth y Cynghorydd ynghyd a'i ffurflen gais.

2. Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu goddefeb os yw'r sefyllfa yn dod o fewn un (neu fwy) o'r sefyllfaoedd a restrir yn y rheoliadau perthnasol. Mae'r sefyllfaoedd yma wedi eu rhestri yn y nodiadau amgaeedig.

3. Mae canllawiau'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad yn nodi'r canlynol mewn cysylltiad â goddefebau:

*"Bydd angen i'r pwyllgor safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiant sy'n rhagfarnu rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau'r awdurdod sy'n weddol gynrychioladol."*

**Argymhelliad**

4. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar gais y Cynghorydd Mike Stevens am oddefeb.